# Ordinhad 16
# Y Senedd: Aelodaeth

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 06 Gorffennaf 2018

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Dr Gwawr Taylor, saastaff@aber.uk / 01970 62 2114

**Statws y polisi:** Diwygiwyd

**Fersiwn**: 3.0

**Dyddiad adolygu diwethaf:** Medi 2022

**Dyddiad adolygu nesaf:** Gorffennaf 2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / This document is also available in English.

## ORDINHAD 16
## Y SENEDD: AELODAETH

1. Bydd y Senedd yn cynnwys yr unigolion isod:

    *1.* <u>Aelodau *ex-officio*</u>
    1. Yr Is-Ganghellor, a fydd yn Gadeirydd y Senedd;
    2. Yr Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor/Gangellorion a'r Dirprwy Is-Ganghellor/Gangellorion;
    3. Cadeirydd Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (a dirprwy yn bosibl drwy enwebiad); a
    4. Pennaeth Ysgol y Graddedigion (a dirprwy yn bosibl drwy enwebiad).

    *2.* <u>Aelodau Etholedig</u>
    1. Un cynrychiolydd a hyd at un dirprwy o bob adran academaidd. Gallai'r cynrychiolwyr hyn fod yn Benaethiaid Adrannau ond nid oes rhaid iddynt fod. Etholir yr aelodau gan ac o blith aelodau'r Adrannau, yn unol â'r Ordinhadau;
    2. Tri myfyriwr neu gynrychiolwyr myfyrwyr:
        a. Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth,
        b. Swyddog Diwylliant Cymreig Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, a
        c. Swyddog Materion Academaidd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth; a
    3. Dau gynrychiolydd, ac un dirprwy yn bosibl, wedi eu hethol gan ac o blith y Staff (heblaw'r Staff Academaidd).

    *3.* <u>Aelodau heb Bleidlais</u>
    1. Pob pennaeth adran academaidd sydd heb gael eu hethol i gynrychioli eu hadrannau/
    2. Bydd gan y Senedd y gallu i wahodd unigolion i'w chyfarfodydd, heb fod ganddynt y gallu i bleidleisio, fel y gwêl y Senedd yn dda.

2. Bydd aelod *ex-officio* yn parhau i fod yn aelod cyhyd ag y bydd yn dal y swydd y daeth i fod yn aelod o'i herwydd.

3. Bydd aelodau'r myfyrwyr neu gynrychiolwyr y myfyrwyr yn dal eu swyddi am y cyfnod ac o'r dyddiad a benni o bryd i'w gilydd gan y Senedd a byddant ar dir i gael eu hailethol am un cyfnod arall.

4. Bydd y dirprwywyr yn cael pleidleisio yng nghyfarfodydd y Senedd. Serch hynny, ni fyddant yn aelodau o'r Senedd ynddynt eu hunain ac ni fyddant ar dir i gael eu henwebu i'r un is-bwyllgor y mae'n ofynnol bod yn aelod o'r Senedd ar ei gyfer.

5. Os yw aelod etholedig o'r Senedd ar gyfnod o absenoldeb estynedig o'r dyletswyddau y mae'n arfer eu gwneud am dymor academaidd neu hwy, bydd y dirprwy yn ymgymryd ag aelodaeth gyflawn o'r Senedd yn y cyfnod hwnnw. Bydd cyfnodau absenoldeb o'r fath yn cynnwys ond ni fyddant wedi'u cyfyngu i: cyfnod ymchwil, cyfnod o afiechyd, cyfnod mamolaeth, a chyfnod di-dâl o'r swydd. Os na phenodwyd dirprwy, gwahoddir yr etholaeth dan sylw i enwebu cynrychiolydd i fod yn ddirprwy yn unol â'r drefn a amlinellir yn Ordinhad 19.

6. Os yw aelod etholedig o'r Senedd ar gyfnod o absenoldeb estynedig o'r dyletswyddau y mae'n arfer eu gwneud fel y manylir yn 5, bydd y Senedd yn penodi dirprwyon o blith yr aelodau i wasanaethau ar unrhyw is-bwyllgorau yn ystod cyfnod yr absenoldeb.

7. Dosberthir yr holl waith papur sy'n ymwneud â'r Senedd i aelodau'r Senedd, a chyfrifoldeb yr aelodau hynny yw anfon y papurau ymlaen at y dirprwy os na allent fod yn bresennol yngnghyfarfod y Senedd.

8. Yr Is-Ganghellor fydd yn llywyddu pob cyfarfod o'r Senedd ac os nad yw'r Is-Ganghellor ynbresennol, Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor, a enwebir gan yr Is-Ganghellor, fydd yn llywyddu. Os nad yw'r Is-Ganghellor, na chwaith yr un Uwch Dirprwy Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor yn bresennol, bydd yr aelodau sydd yn bresennol yno yn dewis un o'u plith (heb fod yn gynrychiolydd y myfyrwyr) i lywyddu yn y cyfarfod hwnnw.